



Ynni Cymunedol y Mynydd Du  
Prosiect Cymoedd Gwyrdd Llangatwg

# Ymgynghoriad Cymunedol Mehedin, Gorffennaf 2024



Am ragor o wybodaeth, neu i gyfrannu  
ewch i'n gwefan, [llangattockgreenvalleys.org](http://llangattockgreenvalleys.org)  
Neu anfonwch ebost [info@llangattockgreenvalleys.org](mailto:info@llangattockgreenvalleys.org)

LGV is a Community Interest Company (reg no. 07255186).  
1 Beaufort St. Crickhowell NP8 1BN

An English version is available on our website.

[llangattockgreenvalleys.org](http://llangattockgreenvalleys.org)

Rydym wedi derbyn cyllid trwy

Gynllun Grantiau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin

sydd wedi ein helpu i ymgysylltu â 5 cymuned y cyngorau lleol.

Funded by UK Government  Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU



Cronfa Datblygu Cynaliadwy  
Sustainable Development Fund  
BANNAU BRYCHEINIOG

Mae Prosiect Ynni Cymunedol y Mynydd Du'n derbyn grant trwy Gronfa Datblygu Cynaliadwy Bannau Brycheiniog. Mae'r gronfa'n cefnogi prosiectau sy'n helpu gwella ansawdd bywyd mewn cymunedau – yn diogelu ac yn cyfoethogi'r amgylchedd lleol, helpu pobl i fyw bywydau iach a bodlon nawr ac yn y dyfodol.

## Crynodeb o'r Ymgynghoriad Cymunedol

### 1. Cyd-destun

Mae Cymoedd Gwyrdd Llangatwg (LGV) yn datblygu prosiect i fanteisio i'r eithaf ar y defnydd o drydan adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol yn ardal Crughywel trwy sefydliad cymunedol er mwyn sicrhau fod unrhyw elw'n dychwelyd i'r gymuned leol. Bydd hyn yn golygu adeiladu gosodiadau ynni adnewyddadwy canolig i fawr eu maint i'w rheoli trwy System Ynni Lleol Clyfar (SLES). Mae ymgysylltu â'r gymuned yn hanfodol o'r cychwyn cyntaf, ynghyd â chynghor parhaus gan grŵp cymunedol i lywio datblygiad y prosiect.

Y cymunedau yw'r sawl yn ardaloedd Pum Cyngor Crughywel, sef cyngorau Crughywel, Llangatwg, Llangynidr, Cwmdu a Chwm Grwyne (Glangrwyne, Llangenni, Llanbedr). Diben cam cyntaf y prosiect (a gyllidir trwy gronfa Gwneud Gwahaniaeth Powys) yw ceisio barn y sawl sy'n byw yn y cymunedau hyn.

Diben yr adroddiad hwn yw crynhoi'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad cymunedol. Fei'i luniwyd gan Gyfoedd Gwyrdd Llangatwg ar y cyd â'r Grŵp Trosolwg Cymunedol, sy'n cynnwys unigolion lleol sydd wedi mynegi diddordeb mewn cyfrannu at ddatblygu'r prosiect.

Dogfen gyhoeddus yw hon, a bydd yn destun trafodaeth mewn cyfarfod cyhoeddus yn Neuadd Clarence rhwng 1:00 pm - 4:00 pm ar 14 Medi 2024. Cynhelir y trafodaethau am 1.30pm a 2.30pm

Rydym hefyd wrthi'n cadarnhau ffeithiau (a gyllidir ar wahân) er mwyn casglu gwybodaeth o ran ariannu, rhedeg a rheoli cynlluniau cynhyrchu ynni aml-dechnoleg, mawr.

### 2. Y Broses Ymgynghori

Mae'r ddogfen hon yn grynodeb o sylwadau a dderbyniwyd gan y sawl oedd yn bresennol yn y chwe digwyddiad ymgynghori a drefnwyd gan LGV ac mewn cyfarfod gyda grŵp o ffermwyr, Clwb Rotari Crughywel, ac aelodau o Bwyllgor Eco Ysgol Uwchradd Crughywel. Roedd LGV wedi trefnu arddangosfa am y prosiect yn Ffair Llangatwg ac yn Sioe Cwmdu yn ogystal ag yn Sioe Llangynidr. Roedd aelodau'r pum cyngor lleol wedi cael sesiwn briffio ar y prosiect, ac roedd rhai ohonynt yn bresennol yn nigwyddiadau LGV.

Roedd posteri a thafleuni gwybodaeth ar gael yn y digwyddiadau hyn, a gofynnwyd i gyfranogwyr ddangos ar fap o'r ardal, y rhanbarthau oedd yn arwyddocaol iddyn nhw, a'r sawl lle y gellir, yn eu barn nhw, leoli cyfleusterau solar, gwynt, hydro, bio-más a storffeydd. Gofynnwyd iddynt hefyd gofnodi'r rhesymau am eu dewisiadau, a sylwadau neu gwestiynau ar nodiadau gludiog. Isod ceir crynodeb o'r mewnbwn a'r sgysiau yma.

Roedd cyfanswm o 115 o bobl wedi cofrestru i dderbyn Cylchlythyr y Prosiect yn ystod y digwyddiadau ymgynghori o Ebrill 2024. Mae gennym gyfanswm 155 bobl ar restr ebostio'r prosiect.





### 3. Sylwadau a chwestiynau cyffredin

Byddwn yn datblygu'r holl sylwadau a nodir isod wrth i'r prosiect ddatblygu ymhellach. Rhoddir rhai atebion cyflym [italig] i rai cwestiynau.

Oes digon o gapasiti a chysylltiadau ar gael gan y grid [ar hyn o bryd, nag oes, ond rydym yn ystyried defnyddio System Ynni Lleol Clyfar (SLES) fel modd i helpu gyda hynny.]

Pa gyfyngiadau sy'n cael eu gosod gan y Parc Cenedlaethol? [Rydym yn trafod hyn gyda nhw, a'r gobaith yw y bydd eu targedau nhw o gyrraedd Sero Net erbyn 2035 yn ein helpu ni.]

O ble y daw'r arian? [nifer o ddulliau posibl ar gael: grantiau, benthyciadau, tanysgrifiadau cyhoeddus, perchnogaeth ar y cyd.]

Beth yw manteision perthynol nifer fach o osodiadau mawr (cost cyfalaf is fesul capasiti MW) o'i gymharu â nifer uwch o osodiadau llai (cost cyfalaf uwch fesul capasiti MW) ond a all fod yn llai ymwthiol o safbwynt gweledol?

Effaith ar fywyd gwyllt a bioamrywiaeth. [Gall prosiectau ynni adnewyddadwy leihau'r effeithiau negyddol a gwneud cyfraniad gwirioneddol at gyfoethogi cynefinoedd bywyd gwyllt a bioamrywiaeth. Gall sicrhau cytgord rhwng datblygu ynni adnewyddadwy a diogelu ecosystemau.]

Oes gwerth i garthion? [Oes, mae rhai planhigion yn defnyddio dulliau treulio anaerobig i dorri deunydd organig i lawr megis slwtsh carthion, sy'n cynhyrchu bionwy y gellir ei ddal a'i ddefnyddio fel ffynhonnell ynni adnewyddadwy.]

## “Cyfle i allu rheoli cynhyrchu ein hynni a buddsoddi mewn prosiect lleol.”

Cyfleusterau storio trwy bwmpio gan ddefnyddio cronfa ddŵr Grwyne Fawr.

Cwestiynau yngylch hydro sy'n dibynnu ar lif yr afon. [Hyfyw, ond yn dibynnu ar amrywiaeth o ganiatâd]

Yr angen ar gyfer cyngor diduedd.

Rôl cwmnïau sy'n cyflenwi trydan.

Beth yw'r costau cyfalaf a sefydlu, a chostau rhedeg cynlluniau solar, hydro a gwynt?

[Bydd hyn oll yn rhan sylweddol o'r astudiaeth ddichonoldeb.]

Roedd cyfranogwyr yn nigwyddiadau LGV ac yn y Clwb Rotari'n llawn anogaeth, ac ar y cyfan yn cefnogi'r uchelgais, gydag agwedd gadarnhaol tuag at gynhyrchu ynni'n lleol.

Roedd y ffermwyr oedd yn y cyfarfod yn gofyn am incwm tebygol y cynllun fesul erw y gall gosodiad ar dir a brydlesir ei ddarparu. Bydd yr wybodaeth yna ar gael o astudiaeth ddichonoldeb ar safleoedd penodol. Ar y sail honno, roeddynt yn cefnogi ystyried y cynllun ymhellach. Roeddent yn amheus iawn ynghylch agwedd swyddogion cynllunio. Rhoddwyd sicrwydd iddynt fod ein holl gyfarfodydd gyda'r Parc Cenedlaethol wedi bod yn galonogol.

### 4. Negeseuon o'r broses ymgynghori

Mewn egwyddor mae'r gymuned yn cefnogi gosodiadau ynni adnewyddadwy yn yr ardal, sy'n amlwg o'r 155 o bobl sydd wedi cofrestru i dderbyn y cylchlythyr, a'u parodrwydd i ddangos lleoliadau sy'n dderbyniol iddyn nhw'n bersonol ar y mapiau.

Mae'r ymgynghoriad hefyd wedi cyfleu nifer o negeseuon y dylai LGV eu hystyried wrth ddatblygu'r prosiect.

4.1 Cyngor. Er mwyn sicrhau cyngor diduedd, sefydlwyd Grŵp Trosolwg Cymunedol o unigolion sydd wedi gwirfoddoli i helpu. Bydd y grŵp hwn yn cyfrannu at ddatblygu'r prosiect o hyn ymlaen.

Mae LGV wedi cynnal cyfarfod gyda'r Grid Cenedlaethol, a thrafodaethau dros Zoom gyda Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru, ac mae'r trafodaethau gyda Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn parhau.

Mae tîm o Ynni Teg, a sefydlwyd gan Ynni Cymunedol Cymru i roi cyngor a gwasanaethau i grwpiau cymunedol sy'n sefydlu prosiectau ynni adnewyddadwy, wedi ymweld â Chrughywel. Yn ogystal mae LGV wedi trefnu cyfarfod gyda Share Energy er mwyn trafod ffynonellau cyllid, strategaethau ariannol a'r potensial i sefydlu cwmni neu sefydliad i gefnogi'r mentrau hyn.

4.2 Dylanwad graddfa. Dylai astudiaeth ddichonoldeb ystyried manteision perthynol nifer fawr o osodiadau cymhedrol eu maint, a nifer fach o osodiadau graddfa fawr, yn enwedig mewn perthynas â'r costau cyfalaf fesul MW ac o safbwynt ymwthiol gweledol.

4.3 Technoleg. Roedd cyfranogwyr wedi awgrymu safleoedd posibl ar gyfer yr holl dechnoleg, a dim ond tyrbinau gwynt a ysgogodd ychydig o wrthwynebiad estheteg penodol.

Mae angen gwneud gwaith pellach i gael sicrwydd ynghylch posibilïadau ymarferol i gadw ynni yn y tymor hir.

Byddai o gymorth cael rhai ffigurau cyffredinol ar gyfer costau perthynol fesul MW ar gyfer pob technoleg.

4.4 Buddugoliaethau cyflym. Dylai LGV geisio sicrhau ychydig o fuddugoliaethau cyflym er mwyn dangos fod y prosiect yn symud yn ei flaen. Yn ddelfrydol, byddai'n rhain yn cael eu dewis fel rhan o'r cynllun ehangach.



### 5. Casgliad.

Mae LGV yn casglu fod digon o gefnogaeth yn y gymuned i'r prosiect fynd yn ei flaen at y cam nesaf, a gweithio tuag at fanyleb ar gyfer astudiaeth ddichonoldeb a seilir ar yr wybodaeth yn adrannau 3, a thrwy gyfeirio at adrannau 4.1, 4.2 a 4.3.

Bydd y fanyleb yn cael ei lunio gan LGV a'r Grŵp Trosolwg, gan ddefnyddio'r gwaith cadarnhau ffeithiau cyffredol, cyngor proffesiynol allanol, a thrwy barhau â'r trafodaethau gyda'r Parc Cenedlaethol a'r Grid Cenedlaethol.






## 6. Mapiau a lleoliadau.

Mae'r map yn dangos yr ardaloedd a nodwyd fel rhai arwyddocaol, neu a ystyrir yn lleoliadau derbynol ar gyfer seilwaith.

Mae'r arlliw glas yn dangos Safleoedd o Ddiddordeb Cwyddonol Penodol (SSSI) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (SAC), a'r arlliw porffor yn cynrychioli Safleoedd Geamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth (RIGS).

### Allwedd.

Lleoedd Arwyddocaol	Marŵn
Solar	Melyn
Hydro	Clas
Cwynt	Brown
Geothermal	Oren
Bio-màs	Cwyrdd



Roedd yr holl farcwy'r lliw yn awgrymiadau gan y cyhoedd.

Ymgynghorir â thirfeddianwyr cyn ystyried unrhyw safleoedd ymhellach.

Funded by  
UK Government



Wedi ei ariannu gan  
Llywodraeth y DU



Cronfa Datblygu Cynaliadwy  
Sustainable Development Fund  
BANNAU BRYCHEINIOG

Llangattock Green Valleys CIC is registered in England and Wales.  
Company number: 07255186  
Registered office: Crickhowell Resource and Information Centre (CRiC)  
Beaufort Street, Crickhowell, Powys, NP8 1BN